



Creu Thawmatrôp





Cafodd y Thawmatrop (hen air Grogaidd am 'Troellwr Rhyfeddod') ei ddyfeisio yn 1825 yr un flwyddyn ag y cafodd Castell Cyfarthfa ei adeiladu!

Byddai plant a oedd yn byw yng Nghastell Cyfarthfa a Merthyr Tudful ar y tro wedi rhyfeddu at hud y Thawmatrop.

Pan gaiff y Thawmatrôp ei droelli mae dwy ddelwedd yn cyfuno i wneud un; cyn bo hir, bydd yr aderyn yn y gawell.

BYDD ANGEN Y CANLYNOL ARNOCH: Siswrn, glud, tâp, lliwiau, ffon/gwelltyn (gallwch ddefnyddio hen bensil hefyd), y templed hwn. Dim printiwr? Edrychwch ar dudalen tri! **TIWTORIAL CREFFT!** Ar gael ar ein sianel YouTube, chwiliwch am sianel 'Llesiant Merthyr'.



1. Gwiriwch y cylchoedd ar hyd y llinellau dotiog.
2. Lliwiwch y lluniau.
3. Tapiwch ffon gron neu welltyn at gefn un cylch. Gadewch ddarn mawr o'r ffon i gael ei defnyddio fel dolen. *Gwnewch yn siŵr fod y ddelwedd yn wynebu i fyny a thuag allan.
4. Yna tapiwch/gludwch y ddisg arall - yn wynebu i fynnu a thuag allan - at y cylch gyda'r ffon. A bydd wedi gorffen!

I ddefnyddio'r Thawmotrôp gafaelwch yn y ffon rhwng eich dwylo gan symud un yn ôl a'r llall ymlaen a chadw fynd. Bydd y ddwy ddelwedd yn troi'n un.





Creu Thawmatrôp

Dyluniwch un eich hun



Lles
@Merthyr

Wellbeing
@Merthyr

Gallwchgeisio creu eich Thawmotrôp eich hun heb brintio'r templedi a hyd yn oed creu eich dyluniad eich hun!

BYDD ANGEN Y CANLYNOL ARNOCH:

Siswrn, glud, tâp, lliwiau, ffon/gwelltyn (gallwch ddefnyddio hen bensil hefyd), y templed hwn. Dim printiwr? Edrychwch ar dudalen tri!

Mae dau gylch gwag ar y dudalen hon. Meddyliwch am ddwy ddelwedd i'w cyfuno; hwyaden ar lyn, gwenynen ar flodyn ayb. Gallwch hefyd animeiddio lluniau. Tynnwch lun llygad ar agor ar un ochr, a llygad wedi cau ar yr ochr arall. Sbiniwch i symud y llygad. Meddyliwch am beth allwch chi ei wneud.

OS NAD OES PRINTIWR GENNYCH!

Crëwch gylch gwag i ddechrau; dewiswch chi'r maint. Yna torrwch e allan. Er mwyn gwneud yn siŵr fod y cylchoedd yr un maint, defnyddiwch bensil i dynnu llun o gwmpas y cylch rydych yn ei dorri allan. Yna torrwch yr ail gylch allan!

Yna dilynwch yr holl gyfarwyddiadau blaenorol uchod ac ar dudalen un i gwblhau eich Thawmatrôp. Mae mor syml â hynna!

